

Papur Polisi

Rheolaeth Tir Cynaliadwy

Sut gall coedydd a choed
ddarparu nwyddau cyhoeddus
yng Nghymru

Mis Chwefror 2018



COED CADW
WOODLAND
TRUST



Sut gall coedydd a choed ddarparu nwyddau cyhoeddus yng Nghymru

Gadael yr Undeb Ewropeaidd yw'r newid mwyaf yng nghefnogaeth a rheoleiddio defnydd tir a rheolaeth yn y Deyrnas Unedig ers 40 mlynedd. Mae Brexit yn cynnig cyfle unigryw i ddatblygu polisi rheoli tir cynaliadwy sy'n darparu dyfodol hyfyw i'n tirweddau a chefn gwlad a hefyd dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015..

Mae amgylchedd cynaliadwy yn sail i'n ffyniant ac yn hanfodol i iechyd a lles cymdeithas. Mae coed yn darparu llawer o'n gofynion hanfodol - aer glân, dŵr, pridd, bwyd, tanwydd a deunyddiau adeiladu. Mae coed yn cynnig manteision enfawr i fywyd gwylt ac yn helpu i wella bioamrywiaeth a chysylltedd cynefinoedd y dirwedd naturiol. Mae'r tirweddau annwyl hyn yn eu tro yn cyfrannu at ein treftadaeth ddiwylliannol a'n ymdeimlad o hunaniaeth fel lleoedd i ymarfer neu ymlacio, neu ar gyfer hamdden a thwristiaeth.

Wedi eu hintegreiddio i mewn i systemau ffermio, mae coed yn gwarchod ein hadnoddau naturiol gwerthfawr trwy helpu i reoli llygredd dŵr a llygredd aer, atal erydiad y pridd ac atgyfnerthu trwy greu lloches ar gyfer da byw, peillio cnydau, rheoli pla integredig ac arallgyfeirio cynnyrch.

Mae agwedd integredig newydd at ddefnydd tir angen cefnogaeth i reoli tir cadarnhaol sy'n gorfod darparu manteision i'r cyhoedd. Cred Coed Cadw er mwyn i ni gyflawni tirwedd sy'n gwbl wydn fod yn rhaid i ni gynnwys cefnogaeth i weithredoedd a fydd yn diogelu a gwella rôl coed, coedlannau a choedwigoedd mewn ecosystemau, fel rhan o rwydweithiau cynefinoedd ac fel rhan o reoli tir cynhyrchiol ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae'n hanfodol buddsoddi nawr i wrthdroi'r dirywiad parhaus yn ein hamgylchedd naturiol

Beth yw lles cyhoeddus?

Mae lles cyhoeddus yn gynnwys llesol sydd ar gael yn gyffredinol y gall un unigolyn ei ddefnyddio heb leihau ei argaeledd i unigolyn arall, ac na chaiff neb ei eithrio ohono.

Gellir darparu nwyddau cyhoeddus fel sgil-gynnyrch damweiniol o weithgaredd economaidd ac felly nid oes unrhyw fudd i'r unigolyn neu'r sefydliad sy'n eu darparu ac eto mae pawb yn gallu elwa arnynt.

Fodd bynnag, gall gweithgaredd economaidd hefyd fygwth yn uniongyrchol y modd y caiff nwyddau cyhoeddus eu cyflawni, am yr union reswm nad oes budd uniongyrchol i'r darparwr.

Mae enghreifftiau o nwyddau cyhoeddus yn cynnwys aer glân neu olygfeydd hardd neu rywogaethau prin. Ceir enghreifftiau pellach o nwyddau cyhoeddus o'r fath, a sut y gellir talu rheolwyr tir am eu meithrin isod.



COED CADW
WOODLAND
TRUST

Llys y Castell, 6 Ffordd y Gadeirlan, CF11 9LJ
woodlandtrust.org.uk/cymru

Elusen gofrestredig yw Coed Cadw, rhif 294344 yng Nghymru a Lloegr a SC038885 yn yr Alban. Cwmni di-elw a gyfyngir o dan warant. Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 1982873. Mae logo Coed Cadw (the Woodland Trust) yn nod masnachu cofrestredig.

Yr hyn yr ydym angen ei gyflawni

CREU: plannu coedydd a choed

Mae'r coetir yn gorchuddio 14% o Gymru, o'i gymharu â chyfartaledd o 44% yn Ewrop. Mae'r cyfraddau plannu presennol yr isaf y buont erioed.

ADFER: ein coedydd hynafol a ddifrodwyd


Ers y 1930au, mae bron i 40% o goetir hynafol Cymru wedi ei ailblannu â rhywogaethau anfrodorol. Bydd bioamrywiaeth nifer o'r coedwigoedd hyn yn parhau i ddirywio heb adfer priodol.

COED Y TU ALLAN I GOEDWIGOEDD

Mae llawer o goed i'w canfod yn unigol, neu mewn gwrychoedd, ar hyd glannau ffyrdd, rheilffyrdd a chyrsiau dŵr, mewn parciau a gerddi, neu fel gelloedd bach mewn tirwedd amaethyddol.

COED AR FFERMYDD

Mae "agroforestry" yn disgrifio systemau ffermio sydd yn cyfuno coed a llwyni gyda da byw – porfeydd coediog – neu gnydau amaethyddol, fel rhan o ddull defnydd tir sydd yn cydbwysu swyddogaethau amddiffynnol a chynhyrchiol ecosystemau.



TREFOLA CHYRION TREFI

Mae tystiolaeth yn parhau i dyfu o'r manteision arwyddocaol o gynyddu coed mewn ardaleodd trefol ar gyfer iechyd a lles.

DIOGELU: ein coed a'n coedwigoedd hynafol

Mae treftadaeth gyfoethog Cymru o goetir hynafol, coed hynafol, porfa a pharcdir hynafol yn elfennau sylfaenol sy'n aros o 'hen dyfiant' y coetir.

YR UCHELDIR

Mae rhannau o dirwedd ucheldir Cymru yn bwysig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am eu bywyd gwylt, ac maent hefyd yn cael eu gwerthfawrogi fel tirweddau diwylliannol. Gall coetir helpu i osgoi erydiad pridd, hidlo dŵr, storio carbon a darparu cynefin ar gyfer bywyd gwylt.



Sut gallwn ddarparu'r nwyddau cyhoeddus sydd eu hangen arnom?

Lleiniau o goed ar gyfer diogelu pridd a dŵr

Canfuwyd erydiad pridd fel problem allweddol mewn cynllun rheoli tir cynaliadwy, gan achosi colli ffrwythlondeb ar ddaliad ond hefyd yn cyfrannu at lygru cyrsiau dŵr â gwaddod, maetholion a phlaladdwyr i lawr yr afon.

Gweithredu: plannu llain newydd o goed ar draws llethrau ac ar hyd nentydd er mwyn rhyng-gipio pridd sy'n cael ei olchi i ffwrdd a gostwng gwlybanaeth arwyneb. Cynyddu maint a chysylltedd gwrychoedd presennol lle maent yn croesi llethrau.

Nwyddau a ddarparwyd: cyhoeddus – lleihau llygredd, lleihau llygredd dŵr wyneb; preifat – cynnal a chadw ffrwythlondeb pridd yn yr hirdymor.

Problem: angen cyngor ar leoliad lleiniau o goed, plannu a rheoli tymor hir.

Cymorth sydd ei angen: taliadau cyfalaf ar gyfer coed, ffensio a diogelu coed, taliadau rheoli pum mlynedd i sefydlu'r coed, cyngor cychwynnol ar leoli a phlannu wedi ei dalu yn rhannol drwy'r cynllun, cyngor tymor hwy ar reoli a ddarperir trwy rwydwaith ffermwyr / cynghorwyr annibynnol.

Gwrychoedd i rywogaethau sydd wedi eu targedu

Canfuwyd gwrych newydd fel offeryn allweddol i gysylltu ac ymestyn cynefin addas ar gyfer ystlumod pedol lleiaf, rhywogaeth o bryder cadwraethol. Mae gwrychoedd trwchus gyda choed aeddfed o'r gwerth mwyaf i fywyd gwyllt, gan gynnwys peillwyr.

Gweithredu: ewch ati i gynnal a chadw'r gwrych presennol ond gwella ei werth bioamrywiaeth, gan gynnwys plannu coed ar gyfer strwythur.

Nwyddau a ddarparwyd: cyhoeddus - bioamrywiaeth wedi ei wella, gwasanaethau peillio a golygfeydd.

Problem: angen cynyddu'r lleiafswm o 2m o led a newid rheolaeth bresennol yn amseru gweithrediadau a math o waith cynnal a chadw (ffustio bob dwy flynedd i osod cylchdro 15 mlynedd) ac ychwanegu coed ychwanegol.

Cymorth sydd ei angen: taliadau rheoli tymor hir a gefnogir gan gyngor, taliadau cyfalaf am goed a diogelu coed / ffensys.

Plannu coed yn yr ucheldir ar gyfer atal llifogydd i lawr yr afon

Fel rhan o ymarfer modelu, nodir nifer o ardaloedd yn yr ucheldir fel safleoedd posibl ar gyfer plannu coed er mwyn lleihau llif y dŵr a helpu i atal llifogydd i lawr yr afon.

Gweithredu: plannu nifer o goedydd mewn lleoliadau penodol fel rhan o gyfres gydlynol o weithgareddau atal llifogydd.

Nwyddau a ddarparwyd: cyhoeddus – gostyngiad yn y

risg o lifogydd ar ffyrdd a mannau cyhoeddus eraill, preifat - gostyngiad yn y risg o lifogydd ar eiddo unigol.

Problem: mae angen gweithgaredd cydlynol i gael canlyniad, cyngor ar blannu a rheoli coed a chymorth i ddod o hyd i daliadau rheoli tymor hir.

Cymorth sydd ei angen: cydlynedd, taliadau cyfalaf ar gyfer coed a thaliadau rheoli 10 mlynedd er mwyn i'r coed sefydlu, cefnogaeth i gael cytundeb taliadau rheoli tymor hir ee gan gwmnïau yswiriant.

Coed ar ffermydd fel cnydau amaethyddol

Dangoswyd bod cynlluniau silvoarable (tyfu cnydau dan goed) a silvopastural (anifeiliaid yn pori dan goed) yn rhoi mwy o gynhyrchiant na chynlluniau un cnwd yn unig (mwy o gymhareb tir - LER) tra'n darparu cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt, yn lleihau erydiad pridd ac yn helpu ffrwythlondeb y pridd a rheoli dŵr.

Gweithredu: plannu rhesi o goed ar y tir âr i ffurfio cynllun cnydio ale.

Nwyddau a ddarparwyd: lles cyhoeddus - gwell bioamrywiaeth, gwell iechyd y pridd, gostyngiad mewn llygredd dŵr (ond byddai'n awgrymu maint llai na mathau eraill o goedwigaeth amaethyddol); preifat - cynyddu cynhyrchiant yn y tymor hir (LER), lledaenu'r risg, gwella ffrwythlondeb pridd yn y tymor hir.

Problem: mae angen cyngor ar gynllunio a gweithredu system, nodi marchnadoedd, plannu a rheoli coed yn y tymor hir, a chefnogaeth i'r buddsoddiad cyfalaf am y bydd amser hir cyn y gwelir enillion.

Cymorth sydd ei angen: taliadau cyfalaf canran ar gyfer coed a diogelu coed, cyngor cychwynnol ar gynllunio a phlannu yn rhannol drwy'r cynllun, cyngor tymor hir ar reoli / marchnata a ddarperir trwy rwydwaith ffermwyr / cynghorwyr annibynnol

Gwrychoedd a lleiniau o goed i roi cysgod i dda byw

Gall gwrychoedd a lleiniau o goed ddarparu cysgod a phori i wella cynhyrchiant anifeiliaid trwy gynnal cydbwysedd egni cadarnhaol a chymorth i wella twf glaswellt tra'n gwella darpariaeth gwasanaeth ecosystem.

Gweithredu: plannu llain gysgodi newydd i gefnogi lles a pherfformiad da byw.

Nwyddau a ddarparwyd: gwell bioamrywiaeth, gwasanaethau peillio, rheoli dŵr, cymeriad tirwedd; preifat - gwell cynhyrchiant a lles.

Problem: mae angen cyngor ar leoli llain gysgodi, plannu a rheoli tymor hir a chymorth cyfalaf.

Cymorth sydd ei angen: taliadau cyfalaf ar gyfer coed a diogelu coed cyngor cychwynnol ar leoli a phlannu wedi ei dalu yn rhannol drwy gynllun, cyngor tymor hwy ar reoli a ddarperir trwy rwydwaith ffermwyr/cynghorwyr annibynnol.

Adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS) i gael hyblygrwydd ar gyfer newid yn yr hinsawdd

Mae angen rheolaeth briodol ar goetir hynafol sydd wedi'u difrodi i sicrhau bod nodweddion allweddol yn cael eu cadw a'u bod yn ddigon cadarn i ffynnu i'r dyfodol..

Gweithredu: diogelu a gwella nodweddion coetir hynafol allweddol o fewn safleoedd coetir hynafol a nodi a mynd i'r afael â bygythiadau eraill megis pori neu bori rhag atal adfywio neu rywogaethau anfrodorol ymledol.

Nwyddau a ddarparwyd: cyhoeddus – addasu i newid hinsawdd a gwell bioamrywiaeth.

Problem: angen dylanwadu ar reolaeth coetiroedd presennol i newid dull rheoli a mathau o rywogaethau ailsefydlu (h.y. coedwigaeth gorchudd parhaus yn hytrach na llwyr gwympto, newid graddol yn hytrach na newid ar unwaith, rhywogaethau brodorol yn hytrach na ailblannu coed coniffer, adfywio yn hytrach na phlannu).

Cymorth sydd ei angen: taliadau rheoli tymor hwy a gefnogir gan gyngor ac asesu a monitro priodol, taliadau cyfalaf ar gyfer gwaith blaenoriaethol, aneconomaidd. Cymorth i farchnata a phroseswyr pren caled, offer contractio ar raddfa fach a datblygu gwybodaeth a sgiliau contractwyr mewn gwaith rheoli coetiroedd sensitif.

Cadwraeth coed hynafol, gan gynnwys porfa dan goed

Mae coed hynafol yn unigryw fel cynefin bywyd gwyllt oherwydd y cymunedau sy'n eithriadol o gyfoethog mewn rhywogaethau sy'n gysylltiedig â phydredd coed ac arwynebau agored boncyffion, canghennau a gwreiddiau.

Fodd bynnag, wrth iddynt ddirywio gydag oed, mae ganddynt anghenion arbennig i sicrhau iechyd da parhaus. Mae coed hynafol hefyd yn darparu hanes o'n tirwedd a'n rheolaeth yn y gorffennol.

Gweithredu: ymgymryd ag asesiad, atal coed rhag cwmpo yn gynamserol, ymgymryd â rheolaeth gydymdeimladol gan gynnwys tynnu canghennau lle bo angen, cynnal y dirwedd gyfagos i wneud y gorau o fioamrywiaeth.

Nwyddau a ddarparwyd: cyhoeddus – bioamrywiaeth a diwylliannol / hanesyddol.

Problem: mae angen gwybodaeth a sgiliau arbenigol ar goed hynafol i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd. Mae angen i gamau gynnwys y dirwedd gyfagos, gan fod nifer o rywogaethau arbenigol sy'n treulio rhan o'u cylch bywyd mewn coed hefyd yn gofyn am rywogaethau tir agored penodol i gwblhau eu cylch bywyd.

Cymorth sydd ei angen: cyngor ac asesu coed hynafol. Taliadau rheoli tymor hir ar gyfer cadw coed a rheoli'r tirwedd o amgylch.

WTML/Rory Francis



Polisi defnydd tir cynaliadwy ar gyfer y dyfodol

Er mwyn adlewyrchu gwerth coed a choedwigoedd yng Nghymru, cred Coed Cadw y dylai'r egwyddorion allweddol canlynol fod yn sail i unrhyw bolisi defnydd tir cynaliadwy yn y dyfodol a'r rheoliadau a'r cymhellion sy'n ei gefnogi:

- Dylid integreiddio coedwigoedd a choed yn llawn i reoli tir.
- Dylid bod yn gyson wrth dalu arian cyhoeddus yn unig ar gyfer buddion cyhoeddus.
- Dylai taliadau fod yn seiliedig ar weithredu a chanlyniadau.
- Dylai egwyddorion trosfwaol gael eu cefnogi gan gynllunio lleol a chyflenwi lleol.
- Dylai ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithredu ar raddfa'r dirwedd.

Er mwyn cyflwyno polisi rheoli tir cynaliadwy effeithiol, mae arnom angen:

- Gofynion rheoleiddio craidd, gan gynnwys amddiffyn adnoddau sylfaenol pridd, dŵr, ansawdd aer ac asedau naturiol presennol, fel coed a choedwigoedd.
- Cymhellion cynhwysfawr, syml i ddarparu buddion cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda gydag ymyriadau amgylcheddol eang, gan gynnwys rheoli ac adfer gwrychoedd, plannu coed a lleiniau cysgodi ar raddfa fach.
- Mwy o fecanweithiau cymhelliant wedi'u targedu i fynd i'r afael â materion penodol sy'n gysylltiedig â rhywogaethau a chynefinoedd sy'n cael blaenoriaeth, er enghraifft coetiroedd brodorol newydd sy'n ffinio â choetiroedd hynafol i glustogi a'u hehangu, neu adfer coetiroedd hynafol wedi'u plannu.
- Cymorth i gyngor a hyfforddiant i ddatblygu effeithlonrwydd ac arloesedd adnoddau, fel systemau coedwigaeth amaethyddol a allai gynnig enillion economaidd ac amgylcheddol o'u cymharu â rhai gweithgareddau sy'n bodoli eisoes.

Dylai cynhyrchu cynllun rheoli tir cynaliadwy fod yn rhagflaenydd i unrhyw benderfyniad ar gymorth i weithredu.

